AMGUEDDFA CYMRU



# Cynllun Gweithredol Corfforaethol 2025-26

amgueddfa.cymru
museum.wales

## Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Croeso i'r cynllun corfforaethol uchelgeisiol a chyffrous ar gyfer 2025-26. A ninnau ar drothwy blwyddyn newydd gyffrous i Amgueddfa Cymru, hoffwn eich gwahodd i edrych yn ôl ar ein llwyddiannau rhyfeddol a'r heriau rydym wedi'u goresgyn yn ystod 2024-25. Gan edrych tua'r dyfodol, rydym yn rhagweld blwyddyn arall o arloesedd, twf a rhagoriaeth, gan adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd gan ein llwyddiannau yn 2024.



Mae Amgueddfa Cymru yn esiampl ddisglair o hunaniaeth Gymreig drwy ein rôl fel ceidwaid casgliad cenedlaethol Cymru. Rydym yn cynnig profiadau unigryw i ymwelwyr, gan feithrin cyfleoedd i greu effaith gadarnhaol ac ystyrlon o ran ymgysylltu â'r gymuned. Drwy gydol heriau 2024-25, mae ymroddiad ein staff, ein hymddiriedolwyr, ein gwirfoddolwyr a'n hymwelwyr wedi bod yn eithriadol. Mae'r ymdrechion cyfunol hyn wedi sicrhau bod treftadaeth gyfoethog Cymru'n parhau i fod yn fywiog, gan daro tant ymhlith cymunedau lleol a chynulleidfaoedd byd-eang.

Nid dim ond yn ôl twf meintiol y byddwn yn mesur llwyddiant, ond hefyd yn ôl y brwdfrydedd a'r diddordeb gwirioneddol a welir bob dydd yn ein hamgueddfeydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi croesawu dros 1.4 miliwn o ymwelwyr, a'n nod drwy'r Cynllun Gweithredol hwn ar gyfer 2025-26 yw croesawu mwy fyth o ymwelwyr i rannu diwylliant cyfoethog a bywiog Cymru â nhw. Clywn ein hamgueddfeydd yn atseinio â sŵn chwerthin a sgriblan creonau ar bapur wrth i'n hymwelwyr fwynhau'r casgliad cenedlaethol drwy ein rhaglenni cynhwysol, arddangosfeydd arloesol, rhaglenni addysg a digwyddiadau diwylliannol dynamig. Mae ein hymrwymiad i barhau i gynnig mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd, ac iddynt fod yn lleoedd sy'n cynnig gwres, diogelwch a mwynhad, yn gadarn o hyd.

Mae cydweithio'n dal yn rhan ganolog o'n cenhadaeth. Mae gennym gynllun uchelgeisiol o ddigwyddiadau ar gyfer 2025-26 – o ddigwyddiadau diwylliannol cydweithredol, i arddangosfeydd teithiol rhyngwladol mawr er mwyn codi ein proffil ni, a phroffil Cymru, yn fyd-eang. Drwy bartneriaethau ag amgueddfeydd lleol ledled Cymru, rydym wedi gwneud cyfraniad allweddol at gefnogi'r sector diwylliannol ehangach, diogelu hunaniaeth Gymreig, a rhannu arbenigedd. Mae mentrau fel *Safbwynt(iau)* yn enghraifft o'n hymroddiad i adrodd straeon amrywiol a hanes cynhwysol, gan sicrhau bod nifer o safbwyntiau'n llywio'r naratif cenedlaethol. Bydd ein cynlluniau i amgueddfeydd dros dro barhau i arddangos diwylliant Cymru yn y Gogledd tra caiff yr Amgueddfa Lechi ei thrawsnewid yn datblygu hyn ymhellach.

Mae ein gwaith yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant a phedwar maes blaenoriaeth y Prif Weinidog, sef iechyd, yr amgylchedd, cyfleoedd i bob teulu, a chymunedau cysylltiedig. Rydym yn ategu'r gweledigaethau hyn, yn enwedig drwy ein gwaith i wella mynediad at y celfyddydau a threftadaeth, a thrwy fynd i'r afael â hanesion trefedigaethol drwy ein fframwaith Dad-drefedigaethu a Chynrychiolaeth Ddiwylliannol. Mae Amgueddfa Cymru yn blaenoriaethu lles a chynhwysiant cymdeithasol drwy ein gwaith ar brosiect Celf (yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru gynt) gan bwysleisio ein treftadaeth gyfoethog ac ehangu ein cyrhaeddiad. Ar ben hynny, mae ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a chadwraeth yn tanlinellu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r dyfodol.

**Edrychwn ymlaen at groesawu rhagor o ymgysylltu rhyngwladol ac amlddiwylliannol yn ystod 2025-26, gan atgyfnerthu ein rôl fel sefydliad diwylliannol blaenllaw yng Nghymru a'r byd.**

# Ein Gweledigaeth, Ein Hymrwymiadau a'n Gwerthoedd

Mae Amgueddfa Cymru yn sefydliad hynod ddylanwadol ym maes dysgu creadigol a hanesyddol, lle y rhoddir pwyslais ar ein pwrpas, sef:

## Rydym yn bodoli i ysbrydoli pawb i ddysgu a mwynhau drwy'r casgliad cenedlaethol.

Er mwyn gwneud hynny, bydd Amgueddfa Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar ein harlwy i ymwelwyr ym mhob safle. Nod y prosiect ailddatblygu trawsnewidiol yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, yw blaenoriaethu profiad ymwelwyr er mwyn adlewyrchu hanes dwfn y Gogledd a dod yn borth i Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, ac mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn blaenoriaethu profiad ymwelwyr drwy ganolbwyntio ar arloesi ac ymgysylltu.

Mae'r ffocws hwn ar wella ein profiad ymwelwyr yn llwyddiannus oherwydd brwdfrydedd a gwaith caled ein staff a'n gwirfoddolwyr. Mae gennym gynlluniau mawr i ailwampio Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wrth iddi nesáu at ei chanmlwyddiant, a sicrhau y bydd yn parhau i fod yn ganolbwynt diwylliannol arwyddocaol sy'n adnabyddus ledled y byd am y 100 mlynedd nesaf.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn nodi ymrwymiadau Amgueddfa Cymru i hyrwyddo ethos a gwerthoedd Cymru a chreu amgylchedd diwylliannol bywiog, cynhwysol, hygyrch ac amrywiol. Fel un o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru, mae'r Amgueddfa’n cyfrannu at y nod o greu cenedl oed-gyfeillgar lle na ddylai tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd nac anabledd fod yn rhwystr rhag cyfranogiad na chymuned. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith gydag ysgolion ledled Cymru a Dechrau'n Deg er mwyn estyn allan a galluogi pob rhan o'n cymuned i gael mynediad i'n safleoedd. Bydd ein gwaith gyda chynllun Cymru Wrth-hiliol yn sicrhau ein bod yn rhan o'r hyfforddiant a'r gwaith datblygu polisi ehangach er mwyn sicrhau bod grwpiau ieuenctid yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli a'u cefnogi. Bydd Amgueddfa Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â hiliaeth systematig yn y sector.

Mae gan Amgueddfa Cymru gysylltiadau hirsefydlog ac ymroddedig ag awdurdodau lleol a phartneriaid cymunedol ledled Cymru, sy'n helpu i sicrhau newid cymdeithasol a blaenoriaethu cyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr ag Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Mae'r Amgueddfa'n cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac mae'n credu'n gryf mewn profiad a rennir yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan wneud pob un o'r saith amgueddfa yn lle ar gyfer dysgu, creadigrwydd a mwynhad.



## Adrodd ar ein Hymrwymiadau Corfforaethol

Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025-26 yn amlinellu blaenoriaethau Amgueddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a ddiffinnir drwy'r chwe ymrwymiad yn ein Strategaeth 2030. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'n hamcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant. Credwn mewn rhannu llwyddiant a rhagoriaeth, felly rydym yn canolbwyntio ar lunio gwybodaeth gyfredol a thryloyw a fydd yn ein galluogi i wneud newidiadau amser real ac atgyfnerthu ein hadroddiadau.

Ein Strategaeth 2030 sy'n rhoi'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer nodau ein Cynllun Busnes Pum Mlynedd, a 2025-26 yw blwyddyn olaf y Cynllun hwnnw. Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol yn ein galluogi i fesur cynnydd tuag at dargedau a osodwyd ar gyfer yr Amgueddfa, gan olygu y gallwn wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata a meithrin dealltwriaeth fanwl o'n cynulleidfaoedd.

Mae Amgueddfa Cymru yn ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio. Felly, mae'r Amgueddfa'n ystyried effeithiau hirdymor y penderfyniadau a wneir yn gyson. Mae amcanion yr Amgueddfa wedi cael eu mapio yn erbyn y Ddeddf ac mae nodau llesiant cyfatebol wedi'u rhestru ar gyfer pob ymrwymiad. Dylid nodi'r ffaith bod angen diwallu anghenion pob un o'r amcanion yn ystod cyfnod heriol yn ariannol, yn enwedig yng nghyd-destun sefyllfa'r Amgueddfa yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Mae Amgueddfa Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod nodau, ethos ac ymrwymiadau ein holl waith yn cyd-fynd ag egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a blaenoriaethau'r Prif Weinidog. A ninnau'n sefydliad allweddol yn y sectorau addysg, treftadaeth a'r celfyddydau yng Nghymru, mae'r tabl isod yn dangos sut y byddwn yn cyflawni blaenoriaethau a nodau Llywodraeth Cymru yn y sector.

| | Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd | Cenedl diwylliant | Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy |
|---|---|---|---|
| Cynrychioli pawb | ● | ● | |
| Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes | ● | ● | |
| Diogelu ac adfer natur a’r amgylchedd | | | ● |
| Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy’n ysbrydoli | ● | ● | |
| Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol | ● | ● | ● |
| Creu cysylltiadau ar draws y byd | ● | ● | ● |



## Ein Hymrwymiadau Strategol

# 1: Cynrychioli pawb

***Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn cynrychioli'r nodau llesiant canlynol:***

- 1 **Cymru lewyrchus** A prosperous Wales
- 3 **Cymru iachach** A healthier Wales
- 4 **Cymru sy'n fwy cyfartal** A more equal Wales
- 5 **Cymru o gymunedau cydlynus** A Wales of more cohesive communities
- 6 **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language
- 7 **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** A globally responsible Wales

Ffocws yr ymrwymiad hwn yw ein huchelgais i sicrhau bod pawb yn teimlo'n gartrefol yn yr Amgueddfa ac yn dod o hyd i gysylltiadau personol, gan ddathlu ehangder hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru yn llawn. Mae Amgueddfa Cymru yn cadw golwg ar ddangosyddion perfformiad allweddol megis niferoedd ymwelwyr er mwyn asesu poblogrwydd arddangosfeydd a mireinio rhaglenni. Canlyniad hyn yw digwyddiadau amrywiol ac oed-gyfeillgar sy'n cynyddu lefelau ymgysylltu yn lleol ac yn rhyngwladol. Mae monitro benthyciadau yn helpu i werthuso partneriaethau, ac mae gweithio gyda thrydydd partïon ar fenthyca darnau o waith yn galluogi'r Amgueddfa i ehangu ei heffaith addysgol a diwylliannol, gan ymestyn ei chyrhaeddiad ac atgyfnerthu ei hymrwymiad i gynwysoldeb a chynrychiolaeth ar yr un pryd. Er mwyn adlewyrchu profiadau amrywiaeth o gymunedau nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n llawn yn y gorffennol, mae'r Strategaeth Datblygu Casgliadau yn canolbwyntio ar ddatblygu casgliadau i alluogi hyn.

| *Gweithgaredd Cyfeirio* | Piler yng Ngweledigaeth Amgueddfa Cymru | Gweithgaredd (o Gynllun 5 Mlynedd 21-26) | Portffolio | Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| *A1.01* | Casgliadau | Cyflawni Siarter Dad-drefedigaethu casgliadau Amgueddfa Cymru | Casgliadau ac Ymchwil | A1 |
| *A1.02* | Casgliadau | Datblygu a chyflawni dull newydd o weithio er mwyn hwyluso defnydd eang o gasgliadau dros Gymru, o fewn y rhwydwaith amgueddfeydd rhanbarthol a chymunedau ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol. | Casgliadau ac Ymchwil | A8<br>A12 |
| *A1.03* | Casgliadau | Cynnal safon gofal casgliadau a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r Strategaeth Datblygu Casgliadau yn perthyn i'r adran hon a'r gwaith dad-drefedigaethu. | Casgliadau ac Ymchwil | A1<br>A9<br>A10 |
| *A1.04* | Casgliadau | Gweithio tuag at ddatblygu Oriel Genedlaethol Gelf Gyfoes. | Casgliadau ac Ymchwil | A8<br>A12 |
| *A1.05* | Casgliadau | Gweithio gyda phartneriaid cymunedol ac amgueddfeydd lleol i gefnogi datblygu sgiliau ym maes rheoli casgliadau a meysydd curadurol eraill. | Casgliadau ac Ymchwil | A12<br>A15 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *A1.06* | Pawb | Datblygu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol gyda phartneriaid. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A3<br>A8 |
| *A1.07* | Casgliadau | Datblygu a gwireddu strategaeth ar gyfer arddangosiadau parhaol sy'n berthnasol i dreftadaeth cymunedau sy'n wynebu anghydraddoldeb neu hiliaeth. | Casgliadau ac Ymchwil Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A1 |
| *A1.08* | Casgliadau | Datblygu arddangosfeydd cymunedol gyda phartneriaid. | Casgliadau ac Ymchwil | A3<br>A8 |
| *A1.09* | Pawb | Datblygu a chyflawni Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu sy'n cynrychioli amrywiaeth cymunedau Cymru. | Cysylltiadau a Chyllido | A1 |
| *A1.10* | Pawb | Datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol ar draws yr Amgueddfa. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A2<br>A3 |
| *A1.11* | Pawb | Diweddaru Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Amgueddfa Cymru. | Cyllid ac Adnoddau / Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A1 |
| *A1.12* | Pawb | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolwyr i recriwtio Bwrdd sy'n cynrychioli amrywiaeth Cymru. | Cyllid ac Adnoddau | A1<br>A6 |
| *A1.13* | Pawb | Cefnogi'r gwaith o roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru ar waith, yn ogystal â chynlluniau cydraddoldeb eraill mewn amgueddfeydd ac orielau. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A1 |
| *A1.14* | Pawb | Datblygu a chyhoeddi Amcanion Tlodi Plant. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A4 |



## 2: Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

***Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn cynrychioli'r nodau llesiant canlynol:***




Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn tanlinellu partneriaeth Amgueddfa Cymru â Llywodraeth Cymru drwy flaenoriaethu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant Cymru a helpu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Un rhan ganolog o hyn yw meithrin cynhwysiant a chael gwared ar rwystrau rhag dysgu diwylliannol a chreadigol i bobl o bob oed. Mae mwy na 250,000 o ddisgyblion ysgol yn cymryd rhan mewn dysgu'n seiliedig ar y cwricwlwm. Mae mentrau megis digwyddiadau sy'n deall dementia a gweithgareddau i bobl ifanc fel 'Amgueddfa Dros Nos' yn cynnig profiadau diddorol a hygyrch i bawb. Hefyd, mae'r Amgueddfa'n cefnogi gweithgareddau dysgu creadigol drwy bartneriaethau megis Pinc College yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r ymdrechion hyn yn hyrwyddo hawliau pobl i gael addysg a chyfle cyfartal, yn enwedig pobl sy'n wynebu anfanteision a chymunedau a ymyleiddiwyd, gan atgyfnerthu ymrwymiad yr Amgueddfa i ddatblygu ieuenctid. Ffocws y dangosyddion perfformiad allweddol yw ehangu ymgysylltiad ag arddangosfeydd, hybu cyfranogiad ysgolion er mwyn annog plant i ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth Cymru yn gynnar, ac atgyfnerthu rhwydwaith amrywiol o wirfoddolwyr. Drwy'r mentrau hyn, mae'r Amgueddfa'n sicrhau ei bod yn parhau i fod yn lle croesawgar a dynamig i bawb.

| *Gweithgaredd Cyfeirio* | Piler yng Ngweledigaeth Amgueddfa Cymru | Gweithgaredd (o Gynllun 5 Mlynedd 21-26) | Portffolio | Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| *A2.01* | Dysgu | Datblygu Cynllun Busnes a Strategaeth Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus 5 Mlynedd a'u rhoi ar waith. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A4<br>A10 |
| *A2.02* | Casgliadau | Cynnal arddangosfeydd i ddathlu creadigrwydd ar y cyd â phartneriaid. | Casgliadau ac Ymchwil | A8<br>A10 |
| *A2.03* | Mwynhau | Cynnal digwyddiadau i ddathlu creadigrwydd ar y cyd â phartneriaid. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A8<br>A10 |
| *A2.04* | Dysgu | Datblygu a chyflawni Rhaglen Addysg Cyn-ysgol. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A4<br>A6<br>A10 |
| *A2.05* | Dysgu | Datblygu a chynnal rhaglenni ac adnoddau hybrid i ysgolion. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A4<br>A6<br>A10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *A2.06* | Dysgu | Datblygu a chynnal rhaglen Addysg i’r Teulu a Rhwng Cenedlaethau. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A4<br>A10 |
| *A2.07* | Dysgu | Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Oedolion a'i roi ar waith. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A6<br>A10 |
| *A2.08* | Dysgu | Ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A2<br>A4 |
| *A2.09* | Dysgu | Adolygu Polisi a Chynllun Gweithredu ar gyfer gwirfoddoli a lleoliadau a'u rhoi ar waith. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A15 |
| *A2.10* | Dysgu | Cynnal y rhaglen wirfoddoli sefydlog. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A15 |
| *A2.11* | Dysgu | Datblygu a chynnal lleoliadau a datblygu fframwaith ar gyfer Rhaglen Brentisiaeth strwythuredig. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A10<br>A15 |
| *A2.12* | Mwynhau | Cynnal digwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dyddiadau neu ddigwyddiadau allweddol ar gyfer amgueddfeydd unigol. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A8<br>A11 |



# 3. Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd

***Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn cynrychioli'r nodau llesiant canlynol:***




Mae'r ymrwymiad hwn yn tynnu sylw at ymroddiad Amgueddfa Cymru i ddiogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd. Mae'r Amgueddfa'n hyrwyddo ailgylchu gweithredol, arferion cynaliadwy gan y staff, a'r defnydd o ddeunyddiau a darparwyr ecogyfeillgar. Yn gyson â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol cynaliadwy, mae Amgueddfa Cymru yn chwarae rhan allweddol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan atgyfnerthu ei chyfrifoldeb i genedlaethau'r dyfodol. Mae Amgueddfa Cymru yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brosiectau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol ar fioamrywiaeth a newid amgylcheddol. Drwy wreiddio cynaliadwyedd mewn arddangosfeydd, gweithrediadau, ac amgylcheddau staff, mae Amgueddfa Cymru yn parhau i arwain ym maes cyfrifoldeb ecolegol, gan sicrhau effaith gadarnhaol barhaol ar genedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn mesur llwyddiant, mae'r Amgueddfa'n cadw golwg ar ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd. Caiff y defnydd o ynni ei fonitro yn erbyn llinell sylfaen 2019/20 er mwyn lleihau allyriadau carbon, ac mae prosiectau ymchwil ar fonitro amgylcheddol yn dangos atebolrwydd a chynnydd.

| *Gweithgaredd Cyfeirio* | Piler yng Ngweledigaeth Amgueddfa Cymru | Gweithgaredd (o Gynllun 5 Mlynedd 21-26) | Portffolio | Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| *A3.01* | Pawb | Datblygu Cynllun Rheoli Carbon i gefnogi targed datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a chyfrannu at dargedau Sector Cyhoeddus Cymru i gyrraedd Carbon Sero Net erbyn 2030, a'i roi ar waith. | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A16 |
| *A3.02* | Pawb | Adolygu ein Polisi a Chynllun Gweithredu Amgylcheddol yn flynyddol i sicrhau gwelliant parhaus, a chynnal ein statws cydymffurfio achrededig (gan gynnwys ein defnydd o ynni a rheoli gwastraff). | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A16 |
| *A3.04* | Dysgu | Datblygu a chryfhau ein prosesau caffael cyfredol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol. | Cyllid ac Adnoddau | A16 |
| *A3.05* | Casgliadau | Cynnal rhaglenni digwyddiadau ac arddangosfeydd i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng amgylcheddol. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A8<br>A16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Casgliadau ac Ymchwil | |
| *A3.06* | Casgliadau | Datblygu rhaglen ymchwil 5 mlynedd newydd sydd â ffocws pendant. | Casgliadau ac Ymchwil | A14 |
| *A3.07* | Pawb | Atgyfnerthu a hyrwyddo cysylltiadau ymchwil yng Nghymru ac yn rhyngwladol. | Casgliadau ac Ymchwil | A14 |
| *A3.08* | Casgliadau | Adnabod ac arddangos ein gwaith ar y cyd ag ymchwilwyr a chymunedau lleiafrifedig ac amrywiol eu hethnigrwydd a'u diwylliant i ehangu dealltwriaeth y cyhoedd o fyd natur a'r amgylchedd. | Casgliadau ac Ymchwil | A1<br>A14<br>A16 |
| *A3.09* | Casgliadau | Datblygu Partneriaeth Caerllion Rufeinig gyda Cadw a Chyngor Dinas Casnewydd (yn amodol ar gais am gyllid ym mis Chwefror/Mawrth 25) | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A8<br>A12 |



# 4. Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli

***Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn cynrychioli'r nodau llesiant canlynol:***




Mae'r ymrwymiad hwn yn tynnu sylw at ymroddiad Amgueddfa Cymru i les ar ei holl safleoedd, gan greu mannau cynhwysol ac addasol lle y gall pob cenhedlaeth ymgysylltu â chelf, hanes, natur a diwylliant. Un rhan ganolog o genhadaeth yr Amgueddfa yw meithrin cynwysoldeb a chymuned drwy gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL), yn ogystal â sicrhau cynwysoldeb i ymwelwyr â chyflyrau iechyd neu amhariadau. Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn cynnig lleoliadau gwaith rheolaidd i bobl sydd fel arall yn wynebu rhwystrau rhag cael gwaith.

Rhoddir blaenoriaeth gyfartal i les y staff, ac mae'r Amgueddfa'n meithrin amgylcheddau cefnogol yn seiliedig ar adborth a chydweithio. Boddhad ymwelwyr yw'r prif ddangosydd perfformiad allweddol, sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr Amgueddfa i gynnig profiadau sy'n ysbrydoli. Mae cyfraddau boddhad uchel yn annog pobl i argymell yr Amgueddfa i eraill ac ymweld eto eu hunain, gan ehangu ei chynulleidfa ac atgyfnerthu ei rôl fel atyniad croesawgar a chynhwysol ar yr un pryd.

| *Gweithgaredd Cyfeirio* | Piler yng Ngweledigaeth Amgueddfa Cymru | Gweithgaredd (o Gynllun 5 Mlynedd 21-26) | Portffolio | Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| *A4.01* | Mwynhau | Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru gyda phartneriaid a chymunedau lleol i ddatblygu amgueddfa fyd-enwog i'n hymwelwyr a'n cymunedau. | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A8<br>A9<br>A11<br>A16 |
| *A4.02* | Mwynhau | Mae prosiect Uwchgynllun Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi cael ei ddisodli gan brosiect 100 Mlwyddiant Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a fydd yn canfod ac yn dewis yr opsiwn a ffefrir i'w ddatblygu dros y chwe blynedd nesaf. | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A8<br>A9<br>A16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *A4.03* | Pawb | Gwella mynediad i holl safleoedd Amgueddfa Cymru. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A1 |
| *A4.04* | Pawb | Cyflawni rhaglenni lles cydweithredol gyda sectorau a darparwyr eraill. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A5 |
| *A4.05* | Mwynhau | Datblygu Cynllun Gweithredu Profiad Ymwelwyr i gefnogi mwynhad a lles. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A5<br>A6<br>A10 |
| *A4.06* | Mwynhau | Datblygu profiadau hunan-gyfeiriedig i ymwelwyr yn ein hamgueddfeydd. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | A6<br>A10<br>A13 |
| *A4.07* | Pawb | Gwella a chynnal a chadw ein hystad dreftadaeth a'n hamgueddfeydd. | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A9 |
| *A4.08* | Pawb | Datblygu profiadau ymwelwyr, hyfforddiant gofal cwsmeriaid a darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid sy'n arwain y sector. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu<br>Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | A10<br>A15 |
| *A4.09* | Dysgu | Datblygu cynlluniau i gynnal sgiliau traddodiadol a chrefft ar draws Amgueddfa Cymru, a'u rhoi ar waith. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu<br><br>Cyllid ac Adnoddau | A11<br>A15 |



## 5. Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol

***Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn cynrychioli'r nodau llesiant canlynol:***




Mae'r ymrwymiad hwn yn sicrhau hirhoedledd a hygyrchedd casgliadau Amgueddfa Cymru drwy ddigideiddio. Mae'r Amgueddfa wedi ehangu ei phresenoldeb digidol, gan greu cymuned ar-lein sy'n galluogi cynulleidfaoedd ehangach i archwilio diwylliant a threftadaeth Cymru. Gan fod y fenter hon yn cael gwared ar rwystrau fel anawsterau cludiant, cyfyngiadau ariannol a phroblemau iechyd, mae'r casgliadau bellach yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach. Mae trawsnewid digidol yn moderneiddio gweithrediadau, yn cefnogi twristiaeth fyd-eang, ac yn ein helpu i ddeall dewisiadau cynulleidfaoedd, gan olygu bod modd teilwra cynnwys.

Er mwyn mesur llwyddiant, mae'r Amgueddfa'n cadw golwg ar dri dangosydd perfformiad allweddol: ymwelwyr â'r wefan, dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, a delweddau o'r casgliad a gaiff eu rhannu. Mae'r metrigau hyn yn sicrhau moderneiddio parhaus ac yn atgyfnerthu rôl y cyfryngau cymdeithasol o ran marchnata, gan helpu i hyrwyddo digwyddiadau, arddangosfeydd, a chenhadaeth ddiwylliannol yr Amgueddfa.


| *Gweithgaredd Cyfeirio* | Piler yng Ngweledigaeth Amgueddfa Cymru | Gweithgaredd (o Gynllun 5 Mlynedd 21-26) | Portffolio | Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| *A5.01* | Pawb | Datblygu a chyflawni strategaeth ddigidol i amlinellu ein hamcanion a'u halinio â Strategaeth 2030 Amgueddfa Cymru. | Cyllid ac Adnoddau | A13 |
| *A5.02* | Pawb | Datblygu gwefan a mewnrwyd newydd i adlewyrchu anghenion ein cyfranogwyr, a'n strategaeth a brand newydd. | Cyllid ac Adnoddau | A1<br>A13 |
| *A5.03* | Pawb | Datblygu seilwaith digidol sy'n addas i'r diben, a'i roi ar waith. | Cyllid ac Adnoddau | A13 |
| *A5.04* | Pawb | Cyflwyno llwyfannau Rheoli Adnoddau Mentrau (ERM)/Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a systemau a phrosesau cysylltiedig, a'u datblygu ymhellach. | Cyllid ac Adnoddau | A13 |
| *A5.05* | | Sicrhau uniondeb a diogelwch ein data a'n rhwydweithiau, gan gynnwys GDPR. | Cyllid ac Adnoddau | A13 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *A5.06* | Casgliadau | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni amcanion y strategaeth 3 blynedd newydd ar gyfer Casgliad y Werin Cymru. | Casgliadau ac Ymchwil | A2<br>A12 |
| *A5.07* | Mwynhau | Datblygu a chynnal profiadau digidol. | Cyllid ac Adnoddau | A6<br>A13 |
| *A5.08* | Casgliadau | Cyflawni'r Prosiect Digideiddio Celf Gyfoes i gynyddu cyfleoedd i arddangos y casgliad cenedlaethol mewn orielau ac amgueddfeydd dros Gymru. | Casgliadau ac Ymchwil | A12<br>A13 |
| *A5.09* | Pawb | Gwella presenoldeb ar-lein i sicrhau y bydd profiadau, gwasanaethau a chynnwys digidol yn dathlu a chynrychioli syniadau, creadigrwydd ac arfer amrywiol a chyfoethog yng Nghymru. | Cyllid ac Adnoddau | A1<br>A13 |



# 6. Creu cysylltiadau ar draws y byd

***Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn cynrychioli'r nodau llesiant canlynol:***




Mae Amgueddfa Cymru yn atgyfnerthu ei phresenoldeb byd-eang drwy ffurfio cysylltiadau ystyrlon drwy ymwelwyr rhyngwladol, partneriaethau, rhaglen fenthyca, ymgysylltu digidol ac arddangosfeydd ac ailddatblygu sy'n arwyddocaol yn rhyngwladol. Mae'r ymrwymiad strategol hwn yn gwella enw da'r Amgueddfa, yn moderneiddio ei harlwy, ac yn dathlu diwylliannau amrywiol ochr yn ochr â threftadaeth Cymru. Drwy arddangos y casgliad cenedlaethol ar lwyfannau rhyngwladol a nodi digwyddiadau rhyngwladol arwyddocaol, mae'r Amgueddfa'n sicrhau bod gan ddiwylliant a threftadaeth unigryw Cymru broffil byd-eang. Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu partneriaethau cydweithredol â phartneriaid rhyngwladol mewn gwledydd sy'n cyd-fynd â pholisïau a gweithgarwch Llywodraeth Cymru.

Er mwyn mesur llwyddiant, mae'r Amgueddfa'n cadw golwg ar ddangosydd perfformiad allweddol: nifer yr ymwelwyr byd-eang o'r tu allan i Gymru. Mae'r metrig hwn yn helpu i asesu ei gwelededd ar y llwyfan diwylliannol rhyngwladol. Drwy ddenu mwy o ymwelwyr byd-eang, bydd Amgueddfa Cymru yn cadarnhau ei rôl fel canolbwynt blaenllaw i hanes, diwylliant, a chelf Cymru, gan sicrhau y caiff Cymru ei chynrychioli ar y llwyfan byd-eang.

| *Gweithgaredd Cyfeirio* | Piler yng Ngweledigaeth Amgueddfa Cymru | Gweithgaredd (o Gynllun 5 Mlynedd 21-26) | Portffolio | Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| *A6.01* | Pawb | Cefnogi Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu a chyflawni Cynllun Gweithredu Rhyngwladol Amgueddfa Cymru i godi ymwybyddiaeth ar draws y byd. | Cysylltiadau a Chyllido | A7 |
| *A6.02* | Casgliadau | Datblygu a rheoli partneriaethau rhyngwladol gyda llywodraethau, amgueddfeydd a phartneriaid strategol eraill. | Cysylltiadau a Chyllido | A7 |
| *A6.03* | Casgliadau | Datblygu Cynllun Gweithredu Teithio Rhyngwladol ar gyfer Arddangosfeydd Amgueddfa Cymru. | Casgliadau ac Ymchwil | A7 |
| *A6.04* | Pawb | Datblygu cynllun gweithredu i gefnogi Twristiaeth Ddiwylliannol, a'i roi ar waith, er mwyn codi ymwybyddiaeth ar draws gweddill y DU a'r byd. | Cysylltiadau a Chyllido | A7 |

# Ein Hwyluswyr Strategol

Caiff y cynlluniau uchelgeisiol hyn eu hategu gan gyfres o hwyluswyr a fydd yn llywio ac yn ffurfio ein gwaith, ein prosiectau a'n gweithrediadau o ddydd i ddydd, gan ein helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol Amgueddfa Cymru fel y'u nodir yn ei Siarter Frenhinol.

Mae ein hwyluswyr strategol fel a ganlyn:

- Cyflawni cynaliadwyedd drwy drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cadarn
- Datblygu rhaglen gynhwysfawr o waith ymchwil a gwerthuso er mwyn llywio a datblygu pob un o'n meysydd gwaith
- Cefnogi a datblygu ein pobl, ein hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr er mwyn gwreiddio ymddiriedaeth, parch a chynhwysiant
- Sicrhau bod pobl Cymru yn rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwaith
- Gwarantu y bydd pawb yng Nghymru yn ymddiried yn Amgueddfa Cymru ac yn ei hadnabod
- Sicrhau bod ein hamgueddfeydd a'n harferion gweithio yn ddiogel ac yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch a diogeledd

Bydd yr holl hwyluswyr hyn yn ein helpu i wireddu ein huchelgeisiau drwy gydol y flwyddyn, gan wella ein gallu i gyflawni ein nodau uchelgeisiol a datblygu fel amgueddfa genedlaethol.




AMGUEDDFA
CYMRU